

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Wrth i ni baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, mae ein meddyliau'n troi at ddisgwyliadau rhieni a disgyblion a'r ysgol er mwyn darparu amgylchedd diogel a chyffyrddus i bawb unwaith yn rhagor. Mae rhai amodau a disgwyliadau yn newid tra bo eraill angen eu hatgyfnerthu:

Dear Parent/Guardian

As we prepare for the new academic year, our thoughts turn to expectations of parents and pupils and of the school in order to provide a safe and comfortable environment for all once more. Some conditions and expectations are changing whilst others simply need to be reinforced:

Covid 19

Ni fydd disgyblion yn cael eu cadw mewn swigod mwyach a chaniateir iddynt gymysgu yn ystod amser egwyl a chinio.

Ni fydd yn ofynnol bellach i ddisgyblion a staff wisgo gorchuddion wyneb ac eithrio mewn amgylchiadau lle na ellir osgoi agosrwydd â disgyblion o flynyddoedd eraill am 10 munud neu fwy e.e. ciwio yn y ffreutur. Efallai y bydd disgyblion a staff yn dal i ddewis gwisgo gorchudd wyneb.

Bydd staff yn parhau i gadw pellter 2 fetr oddi wrth ddisgyblion ac i'r gwrthwyneb lle bynnag y bo modd.

Bydd trefniadau arferol yn aildechrau yn y ffreutur ond bydd gwasanaeth 'grab and go' ar gael o hyd.

Byddwn yn dal i ddisgwyl i ddisgyblion a staff lanweithio neu golchi eu dwylo yn rheolaidd a pharchu gofod personol eraill.

Pupils will no longer be kept in bubbles and will be allowed to mix during break and lunch times.

Pupils and staff will no longer be required to wear face coverings except in circumstances where close proximity with pupils from other years for 10 minutes or more cannot be avoided e.g. queueing at the canteen. Pupils and staff may still choose to wear a face covering.

Staff will continue to maintain a 2 metre distance from pupils and vice versa wherever possible.

Normal arrangements will resume at the canteen but a 'grab and go' service will still be available.

We will still expect pupils and staff to sanitise or wash their hands regularly and to respect the personal space of others.

Ffonau Symudol/Mobile Phones

Rydym wedi addasu ein polisi ar gyfer Medi 2021. Ni fydd hyn yn effeithio ar fwyafrif y disgyblion ond bydd yn llawer llai beichus i staff/ *We have modified our policy for September 2021. This will not affect the majority of pupils but will be far less burdensome for staff.*

O fis Medi ymlaen ni fyddwn yn gofyn i ddisgyblion gyflwyno eu ffonau i'w cadw yn y sêff yn ystod y diwrnod ysgol. Roedd mwyafrif y disgyblion yn anwybyddu'r gofyniad blaenorol i wneud hynny ac ni fyddant yn cael eu heffeithio felly. Yn ddoeth, mae rhai disgyblion yn rhoi eu ffonau i mewn i'w cadw'n ddiogel yn ystod y dydd a bydd y gwasanaeth hwn yn dal i fod ar gael i unrhyw ddisgybl sydd am ei ddefnyddio.

Disgwylir y bydd pob disgybl yn cadw ei ffonau o'r golwg **yn eu bagiau** bob amser yn ystod y diwrnod ysgol, gan gynnwys amser egwyl a chinio.

Os bydd aelod o staff yn gweld ffôn disgybl naill ai yn ei ddwylo neu ar ei berson (e.e. poced trowsus) bydd disgwyl iddo/iddi drosglwyddo'r ffôn. Ni fydd sancsiynau'n newid.

From September we will not be asking pupils to hand in their phones to be kept in the safe during the school day. The majority of pupils disregarded the previous requirement to do so and will not be affected. Some pupils wisely chose to hand in their phones for safe-keeping during the day and this service will still be available to any pupil who wants to use it.

The expectation will be that all pupils will keep their phones out of sight in their bags at all times during the school day, including break and lunch time.

If a member of staff sees a pupil's phone either in their hands or on their person (e.g. trouser pocket) the pupil will be asked and expected to hand over the phone. Sanctions will remain unchanged.

Presenoldeb/Attendance

Disgwylir i bob disgybl fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser. Rhaid i bob disgybl fod yn yr ysgol erbyn 8.30, dechrau'r diwrnod ysgol.

Os na all disgybl fynychu'r ysgol oherwydd salwch, cyfrifoldeb y rhiant yw ffonio'r ysgol ar fore cyntaf yr absenoldeb ac ar bob diwrnod o absenoldeb wedi hynny.

Rhaid i rieni a disgyblion gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yn brydlon. Rhaid i ddisgyblion sy'n teithio ar y trêen gyrraedd ar y trêen cyntaf. Mae deffro'n hwyr yn cael ei orddefnyddio fel 'rheswm' dros fod yn hwyr ac nid yw'n rheswm derbyniol ac eithrio ar adegau prin iawn.

Pan nodir patrymau hwyrni neu absenoldeb, hysbysir y Swyddog Lles Addysg a chysylltir â rhieni. Yn ogystal, bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n hwyr heb reswm da wneud i fynn'r amser a gollir, ar ôl ysgol ar yr un diwrnod.

Mae disgyblion yn credu bod mynd i'r Co-op yn rheswm dilys dros gyrraedd yn hwyr i'r ysgol. Nid yw hyn yn wir. Mater i'r disgybl/rhiant yw sicrhau ei fod yn dod â phecyn bwyd o gartref neu fel arall wedi prynu ei ginio yn Co-op y diwrnod cynt. Yn ogystal, mae nifer fach o ddisgyblion wedi dwyn o'r siop ar y ffordd i'r ysgol neu ar ôl ysgol ac wedi bod yn amharchus ac yn anghwrtais tuag at gwsmeriaid ac at staff. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n adlewyrchu'n wael ar ddisgyblion eraill sy'n mynychu'r ysgol. Bydd disgyblion a welir yn ceisio mynd i mewn i'r siop ar ôl 8.25 yn cael eu troi i ffwrdd wrth y drws gan staff yr ysgol.

All pupils are expected to attend school regularly and on time. All pupils must be at school by 8.30, the beginning of the school day.

If a pupil is unable to attend school due to illness, it is the parent's responsibility to ring the school on the first morning of the absence and on each day of absence thereafter.

Parents and pupils must take responsibility for ensuring that pupils arrive punctually. Pupils who travel by train must arrive on the first train. Waking up late is overused as a 'reason' for being late and is not an acceptable reason except on very rare occasions.

Where patterns of lateness or absence are identified the Education Welfare Officer will be informed and parents will be contacted. In addition, pupils who are late without good reason will be expected to make up the time missed, after school on the same day.

Pupils believe that going to Co-op is a valid reason for arriving late to school. It is not. It is up to the pupil/parent to ensure that they bring a packed lunch from home or else have bought their lunch from Co-op on the previous day. In addition, a small number of pupils have stolen from the store on the way to or from school and have been disrespectful and rude to customers and to staff. This is not acceptable and it reflects badly upon other pupils who attend the school. Pupils who are seen trying to enter the store after 8.25 will be turned away at the door by school staff.

Gwisg Ysgol/Uniform

Mae gan yr ysgol wisg ac ar y cyfan mae disgyblion wedi cadw at y polisi gwisg ysgol. Fodd bynnag, bu dirywiad yn safon y wisg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym am fynd i'r afael â hyn ac yr wyf wedi dwyn y pryder hwn i'ch sylw o'r blaen.

Mae'n amlwg bod rhai rhieni'n credu bod yr ysgol yn mynnu un cyflenwr gwisg ysgol. Ar gais yr ysgol mae Genesis Tywyn yn darparu gwisg ysgol ac mae hyn yn cael ei archebu ar-lein yn uniongyrchol trwy'r cwmni. Fodd bynnag, nid ydym yn mynnu bod rhieni'n prynu gwisg eu plentyn gan Genesis os gallant brynu eitemau yn rhatach rhywle arall ar yr amod bod ganddynt logo'r ysgol. Mae pris ac ansawdd y wisg a gynigir gan Genesis yn cymharu'n ffafriol â gwisg ysgolion eraill ond mae rhieni'n rhydd i ddewis eu cyflenwr eu hunain.

Credaf fod yna bobl yn lleol a all ddarparu'r logo ar wahân gan ein bod yn ymwybodol o ddisgyblion sydd wedi dewis yr opsiwn hwn. Mae hwn yn ffordd dderbyniol o weithredu ar yr amod bod yr eitemyn eitemau o wisg ysgol e.e. crys chwys du plaen NID hwdi, crys polo gwyn neu farwn plaen NID crys-T ac yn y blaen.

Mae rhai ysgolion yn mynnu bod eu disgyblion yn gwisgo esgidiau du. Nid ydym yn gwneud hynny. Rydym yn cynnig dewis. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai yn manteisio ar hyn ac rydym wedi bod yn gweld trainers o bob lliw neu du gyda logos lliw ac ati. Nid yw hyn yn wisg ysgol ac rydym yn teimlo bod ein cynnig yn rhesymol i bob teulu.

The school has a uniform and for the most part pupils have adhered to the uniform policy. However, there was a deterioration in the standard of uniform during the last year and we now want to address this. I have brought this concern to your attention previously.

It is apparent that some parents believe that the school insists on one uniform supplier. At the school's request Genesis Tywyn provide school uniform and this is ordered online directly via the company. However, we do not insist that parents buy their child's uniform from Genesis if they can buy items more cheaply elsewhere and as long as they bear the school logo. The price and quality of the uniform offered by Genesis compares favourably to uniform of other schools but parents are free to choose their own supplier.

I believe that there are persons locally who can provide the logo separately as we are aware of pupils who have chosen this option. This is an acceptable course of action provided that the items are items of our school uniform e.g. plain black sweatshirt NOT hoodie, plain white or maroon polo shirt NOT a T-shirt and so on.

Some schools insist that their pupils wear black shoes. We do not do that. We offer a choice. However, it seems that this is taken advantage of by some and we have been seeing trainers of all

colours or black trainers with coloured logos etc. This is not school uniform and we feel that our offer is reasonable for every family.

Parch ac Ymddygiad/Respect and Behaviour

Disgwylir i'r holl ddisgyblion a staff ddangos parch tuag at eu hunain ac eraill. Ni oddefir amharch, aflonyddu na bwlio. Bu achosion o aflonyddu merched gan fechgyn yn enwedig, ond nid yn unig, yn yr ysgol a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Ni fyddwn yn goddef hyn.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein system ymddygiad cadarnhaol ochr yn ochr â'r system ar gyfer sancsiynau. Ni ddylai disgyblion ddisgwyl y derbynnir ymddygiad gwael. Bydd canlyniadau yn dilyn dewisiadau gwael a dylai disgyblion dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain waeth beth mae unrhyw ddisgybl arall wedi'i wneud.

Nid yw 'Nid fi yn unig roedd' yn esgusodi ymddygiad unigolyn ac mae'r awydd i gael eraill i drafferthion neu feio eraill oherwydd bod disgybl wedi cael ei 'ddal allan' wedi bod yn nodweddiadol gyffredin ymhlith disgyblion sydd wedi dangos ymddygiad gwael.

All pupils and staff are expected to show respect for themselves and others. Disrespect will not be tolerated and neither will harassment and bullying. There have been incidents of harassment of girls by boys in particular, but not exclusively, both at school and via social media. We will not tolerate this.

We will continue to develop our positive behaviour system alongside the system for sanctions. Pupils should not expect that poor behaviour will be accepted. Poor choices will have consequences and pupils should accept responsibility for their own behaviour regardless of what any other pupil has done.

'It wasn't just me' does not excuse an individual's behaviour and the desire to get others into trouble or blame others because a pupil has been 'caught out' has been a common trait amongst pupils who have demonstrated poor behaviour.

Offer/Equipment

Mewn arolwg a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf gwelsom nad oes gan 42% o ddisgyblion cas pensiliau /offer ysgrifennu yn rheolaidd. Mae hwn yn llawer mwy na chyn y gyfnod clo cyntaf ym mis Rhagfyr 2019, pan oedd y ffigur hwn yn 19%. Mae'n ofynnol i bob disgybl ddarparu ei offer ei hun ac mae'r rhestr i'w gweld yn Llyfr Cyswllt y disgybl. Gofynnwn yn barchus i rieni sicrhau bod gan eu plant offer a bag ysgol.

In a survey carried out during the summer term we found that 42% of pupils regularly have no pencil case/writing equipment. This is far greater number than prior to the first lockdown in December 2019, when this figure was 19%. All pupils are required to provide their own equipment and the list can be found in the pupil's Contact Book. We respectfully request that parents ensure that their children have school equipment and bag.

Porth yr Ysgol /School Gateway

Mae'n hynod bwysig a manteisiol i rieni lawrlwytho'r App Porth Ysgol cyn y tymor newydd:
<https://schoolgateway.co.uk/>

Mae'r ap yn caniatáu i rieni dderbyn gwybodaeth am bresenoldeb eu plentyn, i wneud taliadau heb arian parod (ciniawau / tripiâu / cyrchfannau ac ati), negeseuon dwyffordd ac ati.

Er gwaethaf ein nodiadau atgoffa niferus i rieni ynghyd ag arweiniad ar sut i ddefnyddio'r ap, mae nifer y rhieni sydd â'r ap yn dal i fod yn is na 50%. Felly, byddem yn gofyn ichi os gwelwch yn dda weithio ar y cyd â ni a lawrlwytho'r ap cyn gynted â phosibl.

School Gateway It is extremely important and advantageous to parents to download the School Gateway App before the new term:

<https://schoolgateway.co.uk/>

The app allows parents to receive information about their child's attendance, to make cashless payments (dinners/trips/resources etc), two-way messaging etc.

Despite our many reminders to parents together with guidance on how to use the app, the number of parents who have the app is still below 50%. Therefore, we would ask you please to work co-operatively with us and to download the app as soon as possible.

Mae mwyafrif llethol y disgyblion a'r rhieni wedi bod yn gydweithredol ac yn gefnogol i'r holl fesurau y mae'r ysgol wedi'u cymryd ond mae'n bwysig bod pawb yn derbyn yr un negeseuon a nodiadau atgoffa. Byddem yn hynod ddiolchgar am eich ymrwymiad parhaus i'n helpu i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n gyffyrddus ac yn ddiogel yn yr ysgol.

The vast majority of pupils and parents have been co-operative and supportive of all the measures that the school has taken but it is important that all receive the same messages and reminders. We would be extremely grateful for your ongoing commitment to helping us ensure that all pupils feel comfortable and safe at school.

Cofion Gorau a llawer o ddiolch/*Best Wishes and many thanks*

Mrs Helen Lewis

Pennaeth/Head Teacher